**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**—**
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Lowri Jackson
Pennaeth Polisi ac Ymgyrchoedd Cymru
Coleg Brenhinol y Meddygon

10 Mehefin 2022

Annwyl Lowri

Sefydlu Gweithrediaeth y GIG i Gymru

Yn dilyn eich e-bost dyddiedig 5 Mai 2022 ynghylch sefydlu Gweithrediaeth y GIG i Gymru, a anfonwyd gennych ar ran 34 o sefydliadau sy'n gweithio ar draws y sector iechyd, y sector gofal cymdeithasol a'r trydydd sector yng Nghymru, efallai yr hoffech gael gwybod bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch y mater hwn ar 18 Mai 2022. Yn ogystal, cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad ysgrifenedig ar yr un dyddiad.

Byddai gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn clywed barn gyfunol y 34 o sefydliadau dan sylw ar gynigion Llywodraeth Cymru, yn enwedig y penderfyniad i sefydlu Gweithrediaeth y GIG fel model hybrid yn hytrach na sefydliad annibynnol.

Byddem yn ddiolchgar pe gallem gael ymateb gennych erbyn dydd Gwener 22 Gorffennaf 2022.

Yn gywir,

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.